COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 3YDD RHAGFYR 2018 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd S Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; A. Kealey, A Khan, Mrs H. Meredith, J Pearson, P Richards, Mrs K. Swindon, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mr M. Bird, 'Mens Shed', Abergele
Cynghorydd Sir R. Parry.

275/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau a'r gwesteion i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B. Barton, N. Bastow, D. Bradley, C. Brockley, Mrs G. Campbell, A Mason, C. Matthews, A. Pearson, M. Tasker.

276/18 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Rhoddodd y Maer cyhoeddiad byr i ddweud wrth yr Aelodau bod y Cwis Elusennol a drefnwyd ar gyfer dydd Gwener 7fed Rhagfyr wedi cael ei ohirio tan 4ydd Ionawr. Yna cyfeiriodd y Clerc at brofedigaeth deuluol arall i'r Clerc Cynorthwyol a'i bod ar hyn o bryd o'i gwaith ar ganiatâd tosturiol.

Penderfynwyd anfon cydymdeimlad at y Clerc Cynorthwyol.

Yna gwahoddwyd Mr Bird i ddod ymlaen, ac fe gyflwynodd morthwyl a bloc pren i'r Maer a'r Cyngor Tref ar ran 'Mens Shed' Abergele. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod wedi cael ei naddu allan o bren o hen Pier Bae Colwyn a ddymchwelwyd yn gynharach eleni.

Penderfynwyd diolch i Mr Bird ag aelodau 'Mens Shed' Abergele am eu caredigrwydd am roi anrheg mor ystyriol.

277/18 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

278/18 Ymwelwyr â'r Cyngor:

a) Croesawyd Steve Swindon, Cerdd a Ffilm Gymunedol TAPE i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddo siarad am gynlluniau cyffrous TAPE at y dyfodol.

Agorodd Steve trwy roi hanes byr am TAPE a ddathlodd 10 mlynedd yn ystod yr haf. Fe'i lleolir yn y Ganolfan Gelf yn Hen Golwyn. Cyflwynodd nifer o ystadegau am y mudiad sydd wedi cynorthwyo dros 20,000 o bobl ers iddo gychwyn. Fe nodwyd bod pobl yn ymgysylltu a TAPE trwy eu diddordebau creadigol beth bynnag bo eu cefndir a'u gallu. Darllenwyd

nifer o ddatganiadau oedd yn tystio i'r effaith cadarnhaol a wnaed gan TAPE ar fywydau pobl.

Yna aeth Steve ymlaen i egluro bod eu gweithgareddau presennol yn mynd ymlaen am chwe diwrnod yr wythnos ac yn cynnwys animeiddio, ysgrifennu 'ghostbuskers' a chlwb ieuenctid cefn llwyfan i rai ieuanc ac i rai hŷn. Dangoswyd ffilm nodwedd gyntaf TAPE 'British Winters' yn 2016 ac mae wedi cael ei arddangos mewn gwyliau ffilm ar hyd a lled y DU ag Ewrop. Cafodd ei ddefnyddio hefyd fel astudiaeth achos gan y BFI i hybu cynhwysiad cymdeithasol ac fel model newydd o gyflwyniad yn seiliedig ar y gymuned. Roedd 115 o bobl yn gysylltiedig â chynhyrchiad y ffilm, Mae gwaith ar fin dechrau ar ail ffilm nodwedd ac mae TAPE yn gobeithio derbyn buddsoddiad gan y diwydiant ffilm a sgrin ehangach ar gyfer cynyrchiadau'r dyfodol. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru i baratoi cyfleustra cynhyrchu cymunedol o'r radd flaenaf a bydd cynrychiolwyr o 20th Century Fox yn ymweld â TAPE yn ddiweddarach yn yr wythnos. I gyd-fynd a'r agwedd arloesol hwn o gynhyrchu ffilmiau, mae anghenion am wasanaethau TAPE yn cynyddu gyda dros 100 o gyfeiriadau eleni yn unig. Yna cyfeiriwyd at Ŵyl Ffilmiau 2018 sydd ar ddod a dosbarthwyd taflenni i'r Aelodau cael ei hybu yn lleol.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb ac fe ganmolwyd Steve am y gwaith aruthrol a wnaed gan TAPE yn ystod y deg mlynedd diwethaf. Cyfeiriwyd at brosiect Buddsoddi Lleol Ward Glyn (ariannir trwy'r loteri) gyda'r posibilrwydd o greu digwyddiadau / gweithgareddau yn Ward Glyn trwy gyllid / partneriaeth.

Diolchwyd i Steve am fod yn bresennol ac fe adawodd y cyfarfod.

b) Fe nodwyd bydd Rachael Gill yn dod i'r cyfarfod ar 21ain Ionawr i roi cyflwyniad byr ac i wneud cais am gefnogaeth ariannol barhaus tuag at y prif ddigwyddiadau ym Mae Colwyn yn 2019/20.

c) Fe nodwyd bod Deborah Job hefyd wedi gofyn i gael dod i'r cyfarfod ar 21ain Ionawr er mwyn iddi roi adroddiad byr am y diweddaraf ar brosiect y Ganolfan Teulu ac i ofyn am gael defnyddio Neuadd y Dref (yn Chwefror) ar gyfer digwyddiad i ymgysylltu a rhandeiliaid ehangach.

Penderfynwyd caniatáu'r cais a gwahodd Deborah Job i ddod i roi diweddariad ar brosiect Canolfan Teulu yng nghyfarfod mis Ionawr

ch) Cydlynu gyda'r Cyngor Sir (CBSC):

Croesawyd y Cynghorydd Sir Roger Parry i'r cyfarfod gan y Maer, ac fe'i gwahoddwyd i roi adroddiad byr am unrhyw fater oedd yn berthnasol i ardal Bae Colwyn. Dywedodd y Cynghorydd Parry bod CBSC yn parhau i drafod y cynnydd ychwanegol yn y dreth cyngor oedd yn angenrheidiol i fantoli cyllideb 2019/20. Ar hyn o bryd fe ymddengys y byddai oddeutu 11-12%.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

279/18 <u>Cofnodion:</u>

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 22ain Hydref 2018.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 30ain Hydref 2018.
ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2018 (drafft)
iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 27ain Tachwedd 2018 (drafft.)

280/18 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) Cofnod 221/18(a) – Cydlyniad Anffurfiol gyda'r Heddlu:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, manylion am y sesiynau lleol galw i mewn oedd ar ddod. Fe nodwyd byddai dyddiadau a lleoliadau sesiynau'r dyfodol yn cael eu hanfon at yr Aelodau trwy e-bost, fel y derbynnir y wybodaeth oddi wrth y tîm plismona cymunedol.

b. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:

i Cofnod 230/18 – Marchnad Bae Colwyn:

Fe nodwyd bod yr Aelodau Lleol (CBSC) wedi gofyn i'r swyddogion gofyn i fudiadau masnachol a fyddai ganddynt ddiddordeb i redeg y farchnad(au) lleol.

ii. Cofnod 250/18(f) – Cais am Gyllid i Ddatblygu TCIP:

Penderfynwyd cymeradwyo cyfraniad o £19,000 tuag at yr arian cyfatebol sydd ei angen tuag at y £90,000 i wneud cais ar gyfer y Gronfa Datblygu TCIP ac i ofyn i'r Cyngor Tref cael bod yn rhan lawn yn natblygiad y prosiect ac i fod yn rhan o'r rhaglen ymgynghori.

iii. Cofnod 251/18(b) – Pecyn Gwaith Asedau a Gwasanaethau:

Penderfynwyd penodi Gweithgor Asedau a Gwasanaethau, i gynnwys cynrychiolydd o bob Ward, i ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru ac adolygu'r rhestr o asedau / gwasanaethau a gyflwynwyd gan GBSC i'w trafod.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i anfon neges e-bost at bob Cynghorydd i ofyn iddynt ddewis eu henwebiad o'i ward i'r gweithgor erbyn dyddiad y cyfarfod nesaf.

c. Grantiau Mawr a Grantiau am Ddigwyddiadau:

Atgoffwyd yr Aelodau mai'r dyddiad cau am geisiadau 2019/20 oedd 31ain Rhagfyr 2018.

ch. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

281/18 Cynllun Corfforaethol 2018-22:

a. Fe nodwyd bod y Cynllun wedi cael ei gyfieithu. Cyflwynodd y Clerc amcan bris i'w ystyried i gyflenwi ac argraffu 50 copi caled i'w dosbarthu fel bo'r angen, am gost o £129.

b. Cyflwynodd y Clerc y Cynllun Gwaith diweddaraf 2018-19 i'w ystyried.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r Cynllun Gwaith cyfredol.

282/18 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Fe nodwyd bod gweithdy a drefnwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer 30ain Tachwedd wedi cael ei ohirio ac fe'i cynhelir ar 11eg Ionawr.

283/18 Cynrychiolwyr ar Fudiadau Allanol:

Fe nodwyd bu'n rhaid i'r Cynghorydd A. Kealey ymddiswyddo a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried penodi llywodraethwr ysgol newydd i Ysgol Sant Joseff.

Penderfynwyd gohirio gwneud penodiad tan y cyfarfod nesaf am fod nifer o Aelodau ward Rhiw yn absennol.

284/18 Un Llais Cymru:

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am ddyddiadau cynadleddau 2019 er gwybodaeth.

285/18 Heneiddio'n Dda yng Nghymru:

Cyflwynodd y Clerc canllawiau ymarferol i'w ystyried yn ymwneud a chreu cenedl o gymunedau sy'n gyfeillgar a'r henoed, a ddosbarthwyd gan Heneiddio'n Dda yng Nghymru a Chynghrair Henoed Cymru.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r canllawiau ymarferol.

286/18 Diogelu:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am weithdy diogelwch a fynychwyd ganddi fel rhan o wythnos genedlaethol diogelu. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr angen i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu (trwy hyfforddiant cychwynnol yn rhad ac am ddim sydd ar gael - dosbarthwyd y dyddiadau) a'r angen i'r Cyngor mabwysiadu Polisi Diogelu.

Penderfynwyd annog pob Aelod i fynychu sesiwn cychwynnol a gofyn i'r Clerc archwilio am bolisi drafft / model ar Ddiogelu a fyddai'n addas i'r Cyngor Tref ei fabwysiadu.

287/18 <u>Dyddiadau Cyfarfodydd:</u>

Cyflwynodd y Clerc rhestr drafft o ddyddiadau cyfarfodydd 2019/20, er gwybodaeth yn unig (i gael eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai).

.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 3RD DECEMBER 2018

PRESENT: The Mayor, Cllr S Williams
Cllrs: Mrs G Baker; Mrs H Fleet; D Howcroft; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan; Mrs H Meredith; J Pearson; P Richards; Mrs K Swindon; M Worth

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Mr M Bird, Abergele Mens Shed
Cty Cllr R Parry

90/11 Welcome and Apologies for Absence:

The Mayor welcomed members and visitors to the meeting an apologies for absence were received from Cllrs: B Barton; N Bastow; D Bradley; C Brockley; G Campbell; A Mason; C Matthews; A Pearson; M Tasker

91/11 Announcements:

The Mayor gave a brief announcement, informing Members that the Charity Quiz night, scheduled to take place on Friday 7th December, has now been postponed until 4th January. The Clerk then informed members that the Assistant Clerk has had another family bereavement and is currently off on compassionate sick leave.

Resolved to send condolences to the Assistant Clerk.

Mr Bird was then invited to come forward and he presented a solid wood gavel and block to the Mayor and Town Council, on behalf of the Abergele Men's Shed. He informed members that it had been made out of wood from the former Colwyn Bay Pier, demolished earlier this year.

Resolved to thank Mr Bird and Abergele Men's Shed for their kind and thoughtful gift.

92/11 Declarations of Interest: Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

93/11 Visitors to the Council:

a) The Mayor welcome Steve Swindon, TAPE Community Music and Film, to the meeting to talk about TAPE's exciting plans for the future.

Steve began by giving a brief history of TAPE, which turned 10 years old this summer and is based in the Arts Centre in Old Colwyn. He read out some statistics about the organisation, which has supported over 20,000 people since its inception. It was noted that people engage with TAPE

through their creative interests, irrespective of their background and ability. A number of statements were read out, demonstrating the positive impact that TAPE has had on people's lives.

Steve then went on to explain that their current activities operate six days a week and include animation, writing, ghostbuskers and backstage youth club juniors and seniors. TAPE premiered its first feature film in 2016 'British Winters', which has been toured around UK and European festivals, along with being used as a case study by the BFI for promoting social inclusion and a new model of community-based delivery. Over 115 people were involved in the film's production. Work is commencing on a second feature film and TAPE is hoping to get investment from the wider film and screen industry for future productions. Talks are underway with the Welsh Government regarding providing a first class community production facility and 20th Century Fox are visiting TAPE later this week. Alongside this pioneering approach to film-making, the need for TAPES services are increasing, with over 100 referrals this year alone. Reference was then made to the forthcoming 2018 film festival, with leaflets left with members to promote this locally.

A brief question and answer session followed the presentation, with Steve commended for the 'phenomenal' work TAPE have done during the past ten years. Reference was made to the Glyn Ward Invest Local (lottery funded) project, with possibility for funding/partnership work to deliver creative events/activities in Glyn ward.

Steve was thanked for attending and he then retired from the meeting.

b) It was noted that Rachael Gill will be attending the meeting on 21st January to give a brief presentation and request ongoing funding support for major events In Colwyn Bay for 2019/20.

c) It was noted that Deborah Job has asked if she can also attend the meeting on 21st January, to give a brief update on the Family Centre project and request use of the Town Hall (in February) for a wider stakeholder engagement event.

Resolved to approve the request and invite Deborah Job to give an update on the Family Centre project at the January meeting.

d) **County Council Liaison**:

The Mayor welcomed County Councillor Roger Parry to the meeting and invited him to give a brief report on any matters relating to the Bay of Colwyn area. Cllr Parry reported that CCBC is still debating the council tax increase required to balance the budget for 2019/20. This currently looks to be around 11-12%.

Resolved to receive and note the report.

94/11 <u>Minutes</u>:

a) Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of:

i) ***The last meeting of the Council, held on 22nd October 2018.***

b) Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:

i) The General Purpose & Planning Committee held on 30th October 2018.

ii) The Policy & Finance Committee held on 21st November 2018 (Draft).

iii) The General Purposes & Planning Committee held on 27th November 2018. (Draft)

95/11 <u>Matters Arising from Those Minutes</u>:

a) **Min. 221/18(a) – Informal Police Liaison:**

The Clerk tabled, for information, details of forthcoming local drop-in sessions. It was noted that dates and locations of future sessions would be forwarded to members by e-mail, as and when they are received from the neighbourhood policing team.

b) Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i) Min. 230/18 – Colwyn Bay Market:

It was noted that the Local Members (CCBC) have instead instructed officers to seek expressions of interest from commercial enterprises to run the local market(s).

ii) Min. 250/18(f) – TCIP Development Fund Application:

Resolved to approve a £19,000 contribution towards the match-funding requirement of £90,000 for the TCIP Development Fund application and to request that the Town Council is fully involved in, and consulted with, in relation to the development of the project.

iii) Min. 251/18(b) – Assets and Services Toolkit:

Resolved to appoint an Assets and Services Working Group, to include a representative from each Ward, to consider the Welsh Government's guidance and review the list of assets/services provided for discussion by CCBC.

Further resolved that the Clerk will e-mail all councillors to request that they aim to agree their preferred ward nomination to the working group by the date of the next meeting.

c) **Large Grants and Events Grants:**

Members were reminded that applications for 2019/20 are required by 31st December 2018.

d) Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.

96/11 Corporate Plan 2018-22

a) It was noted that the Plan has now been translated. The Clerk tabled, for consideration, a quotation for the supply of 50 printed and bound hard copies, for distribution as required, at a cost of £129.

b) The Clerk submitted, for consideration, the updated Action Plan for 2018-19.

Resolved to receive and note the current Action Plan.

97/11 Wellbeing of Future Generations Act:

It was noted that the workshop arranged by the North Wales PSBs for representatives from town and community councils, due to be held on 30th November, had been postponed until 11ath January.

98/11 Representatives on Outside Bodies:

It was noted that Cllr A Kealey has had to stand down and members were asked to consider appointing a replacement school governor for Ysgol Sant Joseff.

Resolved to defer this appointment to the next meeting, as several Rhiw ward members were not present.

99/11 One Voice Wales:

The Clerk submitted a notice of conference dates for 2019, for information.

100/11 Ageing Well in Wales:

The Clerk submitted, for consideration, a practical guide to creating change a nation of age-friendly communities, issued by Ageing Well in Wales and Cymru Older People's Alliance.

Resolve to receive and note the practical guide.

101/11 Safeguarding:

The Clerk gave a brief verbal report on a safeguarding workshop she had attended in conjunction with national safeguarding week. Members were asked to consider the need to increase their awareness of safeguarding (free introductory training available – dates circulated) and the need for the Council to adopt a Safeguarding Policy.

Resolved to encourage all Members to attend an introductory session and to request that the Clerk looks for a draft/model safeguarding policy suitable for adoption by the Town Council.

102/11 Meeting Dates:

The Clerk submitted the draft schedule of meeting dates for 2019/20, for information only (to be adopted at the annual meeting in May).

The meeting closed at 7.30pm

…….. Chairman